# AELODAU'R CYHOEDD YN SIARAD YNG NGHYFARFODYDD Y CABINET

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cydnabod bod modd i'w breswylwyr wneud cyfraniad pwysig at ei benderfyniadau a bod yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr.

Mae'r canllaw yma yn darparu gwybodaeth am yr hyn y mae modd i aelodau'r cyhoedd ei ddisgwyl wrth fynd i gyfarfodydd y Cabinet neu Is-bwyllgorau'r Cabinet.





## CYNNWYS


| | | Tudalennau |
|---|---|---|
| 1. | Beth yw'r Cabinet? | 3 |
| 2. | Pwy yw Aelodau'r Cabinet? | 4 |
| 3. | Ble a phryd mae'r Pwyllgorau yn cwrdd? | 5 |
| 4. | Sut mae modd i mi sicrhau bod fy 'llais' yn cael ei glywed? | 5 |
| 5. | Pwy sy'n cael siarad? | 5 |
| 6. | Am faint o amser caf i siarad? | 6 |
| 7. | Am beth caf i siarad yn y cyfarfod? | 6 |
| 8. | Paratoi'ch sylwadau ar gyfer y Pwyllgor | 7 |
| 9. | Presenoldeb yn y cyfarfod | 7 |
| 10. | Pryd bydda i'n siarad? | 8 |
| 11. | Dogfennau ategol neu gymhorthion gweledol | 8 |
| 12. | Ar ôl annerch y Pwyllgor | 9 |
| 13. | Sut ydw i'n cofrestru i siarad? | 9 |
| 14. | Sut ydw i'n cofrestru i siarad yn Gymraeg? | 10 |
| 15. | Sut ydw i'n cofrestru i siarad os oes gyda fi anabledd neu anghenion ychwanegol? | 10 |
| 16. | Gwybodaeth Ychwanegol | 10 |




## 1. Beth yw'r Cabinet?

Mae'r Cabinet yn gyfrifol am baratoi polisïau yn Rhondda Cynon Taf. Mae'n gyfrifol am wneud nifer o'r penderfyniadau mawr hynny ar sut mae'r Cyngor yn gwasanaethu'i drigolion.

Mae gan Gyngor Rhondda Cynon Taf gabinet – yn debyg i Lywodraeth San Steffan yn Llundain, a Llywodraeth Cymru yn y Senedd, ym Mae Caerdydd. Mae'r Cabinet yn cynnwys Aelodau Gweithredol sydd â chyfrifoldeb arbennig am wasanaethau'r Cyngor yn lleol.

Mae'r is-bwyllgorau yma o fewn strwythur cyfarfodydd y Cabinet, ac mae gyda nhw swyddogaethau gwneud penderfyniadau dirprwyedig drwy Gynllun Dirprwyo'r Arweinydd:

- Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd - Cafodd yr is-bwyllgor yma ei sefydlu er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ledled yr Awdurdod o ran materion sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â sicrhau bod y Cyngor yn dod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030. Bydd aelodau'r grŵp yn gosod cyfeiriad strategol a byddan nhw'n ystyried unrhyw bolisïau lleol ynghylch newid yn yr hinsawdd a materion cysylltiedig.

- Is-bwyllgor y Cabinet - Parc Coffa Ynysangharad - Mae'r is-bwyllgor yma'n gweithredu fel Ymddiriedolwr Corfforaethol ar gyfer Parc Coffa Ynysangharad, a hynny ar ran yr Adain Weithredol. Mae'r Pwyllgor yn ystyried pob mater mewn cysylltiad â defnydd a datblygiad y Parc yn y dyfodol, a gwarchod amcanion yr Ymddiriedolaeth.

- Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg - Mae'r is-bwyllgor wedi ei sefydlu i sicrhau dull Awdurdod-gyfan wrth ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gan ymdrin yn benodol â'r Safonau Statudol sy'n ymwneud â'r Gymraeg neu'r Cynllun Iaith Gymraeg statudol.



- Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion yr Eisteddfod - Bydd Rhondda Cynon Taf yn cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2024. Mae'r Is-bwyllgor wedi'i sefydlu i sicrhau bod yr awdurdod lleol cyfan yn mabwysiadu dull o gyflawni hyn yn llwyddiannus.

## 2. Pwy yw Aelodau'r Cabinet?

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Andrew Morgan OBE - Arweinydd y Cyngor ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Isadeiledd a Buddsoddi.

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Maureen Webber - Dirprwy Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor.

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Bob Harris - Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd y Cyhoedd a Chymunedau.

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Gareth Caple - Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Ann Crimmings - Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden.

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Rhys Lewis - Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg.

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Christina Leyshon – Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol.



[Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Mark Norris - Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu a Ffyniant](#).

## 3. Ble a phryd mae'r Pwyllgorau yn cwrdd?

Mae'r Cabinet yn cyfarfod unwaith y mis ac mae modd dod o hyd i fanylion y calendr cyfarfodydd yma.

Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y dull hybrid (yn amodol ar ddisgresiwn y Cadeirydd). Mae hyn yn golygu bod modd i gyfranogwyr fynd i Siambr y Cyngor neu ymuno â'r cyfarfod ar-lein (Zoom). Mae'r holl gyfarfodydd hybrid yn cael eu darlledu'n fyw ar wefan y Cyngor, fel bod modd i'r cyhoedd eu gwylio.

Mae rhestr o holl gyfarfodydd y Cabinet ar gyfer blwyddyn bresennol y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor. Cliciwch yma.

## 4. Sut mae modd i mi sicrhau bod fy 'llais' yn cael ei glywed?

Mae dwy ffordd i'ch llais gael ei glywed yng nghyfarfodydd y Cabinet. Cewch chi ddod i Siambr y Cyngor neu ymuno â'r cyfarfod ar-lein trwy'r platfform y mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio, 'Zoom'. Ar ôl i chi ofyn i siarad mewn cyfarfod, byddwch chi'n cael cyfarwyddiadau clir ar sut i ymuno â'r cyfarfod, boed hynny wyneb yn wyneb neu ar-lein (Gweler adran 13 'Sut ydw i'n cofrestru i siarad?')

## 5. Pwy sy'n cael siarad?

Mae modd i unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yn Rhondda Cynon Taf gael cyfle i annerch y Cabinet mewn cyfarfod arferol, yn amodol ar ddisgresiwn y Cadeirydd. Serch hynny, rhaid cofrestru'ch bwriad i wneud hynny ymlaen llaw.

Y Cadeirydd fydd yn penderfynu ar nifer y siaradwyr a gaiff annerch y Cabinet ar bob eitem ar yr agenda, ac mae modd i'r Cadeirydd ofyn i un siaradwr gyfleu sylwadau grŵp o bobl os bydd nifer o geisiadau i siarad yn dod i law ynglŷn â'r un eitem ar yr agenda.



Os bydd rhywun o dan 16 oed yn dymuno annerch y Cabinet, byddwn ni'n trefnu iddyn nhw ddod ag oedolyn gyda nhw. Yn ogystal â hynny, bydd angen cwblhau'r dogfennau GDPR perthnasol.

## 6. Am faint o amser caf i siarad?

Bydd gan siaradwyr unigol hyd at 5 munud i annerch y Cabinet. Os oes nifer o siaradwyr cyhoeddus ar gyfer eitem benodol ar yr agenda, mae modd i'r Cadeirydd, yn ôl ei ddisgresiwn, leihau'r amser a neilltuir i bob siaradwr er mwyn rhoi cyfle i bawb siarad. Bydd y siaradwyr yn cael gwybod am y newid yma cyn y cyfarfod.

Mae gan y Cadeirydd ddisgresiwn i ofyn i'r siaradwr orffen siarad cyn i'r amser yma ddod i ben, os yw'r Cadeirydd o'r farn bod y siaradwr yn gwneud unrhyw sylwadau sy'n ymddangos yn ddifenwol, yn sarhaus neu'n amherthnasol i'r eitem sy'n cael ei thrafod.

## 7. Am beth caf i siarad yn y cyfarfod?

Rhaid i aelod o'r cyhoedd siarad ar yr eitem y mae wedi'i gofrestru i siarad amdani - ni chaiff fynd i'r afael ag eitemau eraill ar yr agenda neu fusnes amherthnasol.

Gofynnwn i chi sicrhau:

- Bod eich sylwadau yn glir ac yn gryno ac yn cysylltu'n uniongyrchol â'r adroddiad rydych chi wedi gofyn i gael siarad amdano;
- Eich bod chi'n osgoi ailadrodd pwyntiau sydd eisoes wedi'u gwneud gan siaradwyr cyhoeddus eraill;
- Eich bod chi'n cyfyngu'ch barn i'r adroddiad a'ch bod chi'n tynnu sylw at sut mae modd i'r adroddiad effeithio ar ddarparu gwasanaethau i grwpiau penodol o ddinasyddion yn Rhondda Cynon Taf;
- Nad yw eich sylwadau yn ddifenwol, yn gwahaniaethu neu'n cynnwys iaith sarhaus.



Efallai bydd gofyn i chi roi rhagor o fanylion am y sylwadau rydych chi'n eu gwneud. Serch hynny, mae'n bwysig cofio na ddylech chi gymryd rhan mewn unrhyw ddadl gydag Aelodau o Bwyllgor y Cabinet.

## 8. Paratoi'ch sylwadau ar gyfer y Pwyllgor

Mae hawl y cyhoedd i siarad yn berthnasol i bob eitem ar yr agenda ac eithrio'r canlynol:

- Ymddiheuriadau, Datganiadau o Fuddiant a Chofnodion;
- Eitem ar yr agenda sydd wedi'i thynnu'n ôl;
- Unrhyw eitem ar yr agenda nad yw'n cynnwys adroddiad ysgrifenedig;
- Eitem ar yr agenda y mae'r Cadeirydd wedi arfer ei ddisgresiwn i dynnu'n ôl hawl y cyhoedd i siarad amdani;
- Pan fo eitemau cyfrinachol/eithriedig yn cael eu trafod gan y Pwyllgor Craffu, bydd y Cadeirydd yn gofyn i bob aelod o'r wasg a'r cyhoedd adael yr ystafell gyfarfod/y cyfarfod ar-lein.

Dydy'r hawl i siarad ddim yn cynnwys yr hawl i ofyn unrhyw gwestiynau i unrhyw Aelod Etholedig, Swyddogion y Cyngor, unigolion sydd wedi'u gwahodd nac unrhyw siaradwr arall.

## 9. Presenoldeb yn y Cyfarfod

Dylai aelodau'r cyhoedd sydd wedi cofrestru i siarad gyrraedd y Siambr/ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn dechrau'r cyfarfod a dylen nhw roi gwybod i Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd eu bod nhw wedi cyrraedd.

Os byddwch chi'n dod i Siambr y Cyngor, bydd Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd yn cwrdd â chi ac yn rhoi sedd briodol i chi. Bydd y Cadeirydd yn gofyn i chi annerch y Pwyllgor ar yr adeg briodol.

Os byddwch chi'n ymuno â'r cyfarfod ar-lein, bydd swyddog y Cyngor yn cysylltu â chi drwy e-bost neu dros y ffôn er mwyn rhoi'r manylion mewngofnodi angenrheidiol i chi. Ni ddylech chi rannu rhif adnabod y cyfarfod na'r cyfrinair gydag unrhyw un arall. Dim ond un person fydd yn gallu ymuno â'r cyfarfod gan ddefnyddio'r manylion yma.



Os ydych chi'n rhannu'r manylion yma, efallai fydd ddim modd i chi ymuno â'r cyfarfod.

Nodwch: os ydych chi'n dewis y naill opsiwn neu'r llall, rydych chi'n cydsynio i gael eich cynnwys yn y recordiad o'r cyfarfod a fydd yn cael ei rannu ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad y cyfarfod yn cynnwys sain a delweddau ohonoch chi a phawb arall yn y cyfarfod. Gweler isod ddolen i Hysbysiad Preifatrwydd Corfforaethol y Cyngor:-

Hysbysiad Preifatrwydd Corfforaethol y Cyngor – Sut byddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol – Trosolwg | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rhondda-cynon-taf.gov.uk)

## 10. Pryd bydda i'n siarad yn ystod y cyfarfod?

Bydd y Cadeirydd yn cyflwyno pob eitem yn unol â threfn yr agenda, ni waeth pa eitem sy'n cynnwys siaradwyr cyhoeddus. Bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno yn y drefn ganlynol:

- Swyddog Cyfrifol o'r Cyngor i gyflwyno'r adroddiad;
- Os yw'n berthnasol, Aelod o'r Cabinet sy'n ddeiliad portffolio i annerch y Cabinet ar y mater;
- Aelodau'r Cabinet i drafod a chyflwyno barn ar yr adroddiad dan sylw
- Aelodau nad ydynt yn rhan o'r Adain Weithredol sydd wedi cofrestru i siarad
- Aelodau'r cyhoedd sydd wedi cofrestru i siarad yn gwneud hynny;

Bydd siaradwyr cyhoeddus yn cael eu cyflwyno gan y Cadeirydd ar yr adeg briodol a'u hannog i annerch y Pwyllgor.

## 11. Dogfennau ategol neu gymhorthion gweledol

Er mwyn i Aelodau ystyried unrhyw bwyntiau y mae siaradwyr cyhoeddus yn eu gwneud, rhaid iddyn nhw ddarparu unrhyw wybodaeth/dogfennau ategol ymlaen llaw



wrth gofrestru i siarad. Does dim modd cyflwyno unrhyw wybodaeth/dogfennau ychwanegol yn y cyfarfod ei hun.

Os yw siaradwyr yn dymuno llunio cymhorthion gweledol ar ffurf cyflwyniad PowerPoint, rhaid darparu'r sleidiau yma ymlaen llaw cyn y cyfarfod. Bydd y Cadeirydd yn penderfynu p'un a fyddan nhw'n cael eu dangos ai peidio.

## 12. Ar ôl annerch y Pwyllgor

Ar ôl i chi orffen annerch y Cabinet, bydd Aelodau'r Pwyllgor neu Swyddogion, o dan gyfarwyddyd y Cadeirydd, yn ymateb i'r anerchiad.

Wedyn, bydd y Cabinet yn trafod yr eitem a bydd penderfyniad yn cael ei wneud cyn symud ymlaen i'r eitem nesaf.

Mae croeso i chi adael y cyfarfod unwaith i'r Cabinet wneud ei benderfyniad o ran yr eitem y siaradoch chi amdani hi.

Bydd hysbysiad o benderfyniad yn cael ei lunio ar ddiwedd y cyfarfod.

Bydd unrhyw siaradwyr Cyhoeddus yn cael eu henwi ar yr Hysbysiad o Benderfyniad ac yng nghofnodion y Cyfarfod, sy'n fater cyhoeddus.

## 13. Sut ydw i'n cofrestru i siarad?

Mae agendâu cyfarfodydd y Cabinet yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor, 5 diwrnod clir cyn dyddiad y cyfarfod.

Rhaid i aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno siarad yn y cyfarfod anfon e-bost at y garfan Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol erbyn 5pm ar y diwrnod gwaith olaf ond un cyn y cyfarfod perthnasol.

Rhaid i geisiadau gynnwys manylion yr eitem ar agenda'r Cabinet yr hoffech chi siarad amdani. Rydyn ni'n ymdrin â cheisiadau yn y drefn y maen nhw'n cael eu derbyn. Byddwn ni'n rhoi gwybod i bawb sydd wedi cofrestru i siarad cyn y cyfarfod os yw eu cais i siarad wedi cael ei dderbyn, naill ai drwy e-bost neu drwy'r rhif ffôn cyswllt maen nhw wedi'i ddarparu.



## 14. Sut ydw i'n cofrestru i siarad yn Gymraeg?

Rydyn ni'n croesawu unrhyw ohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn unol â'r canllawiau (sydd i'w gweld yn adran 13 uchod), os ydych chi am annerch Aelodau'r Pwyllgor yn Gymraeg, mae'r un broses yn berthnasol, a dylech chi nodi a ydych chi am siarad yn Gymraeg neu'n Saesneg. Bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael yn y cyfarfod os byddwch chi'n dymuno annerch y Pwyllgor trwy gyfrwng y Gymraeg.

## 15. Sut ydw i'n cofrestru i siarad os oes gyda fi anabledd neu anghenion ychwanegol?

Os oes gyda chi anabledd neu unrhyw anghenion ychwanegol a bod angen cymorth arnoch chi er mwyn cymryd rhan yng nghyfarfod y Cabinet, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost isod erbyn 5pm ar y diwrnod gwaith olaf ond un cyn cyfarfod y Pwyllgor Craffu perthnasol. Bydd aelod o'n carfan yn hapus i gysylltu â chi i drafod eich anghenion penodol a threfnu'ch cais i siarad.

## 16. Gwybodaeth Ychwanegol

Does dim hawl gan aelodau'r cyhoedd ffilmio na recordio cyfarfodydd ac rydyn ni'n gofyn iddyn nhw beidio â rhannu manylion ymuno'r cyfarfodydd gydag unrhyw un arall.

Dylai siaradwyr roi gwybod i'r Gwasanaethau Democrataidd ymlaen llaw os oes gyda nhw unrhyw anghenion neu ofynion arbennig.

Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau am aelodau'r cyhoedd yn siarad mewn cyfarfod, mae croeso i chi gysylltu ag aelod o'n carfan gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost isod:
BusnesRheoleiddiolaGweithredol@rctcbc.gov.uk

